Llais
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Llais
Crown Buildings
Cathays Park
Cardiff
CF10 3NQ

Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

28 Mai 2026

**Prif Weinidog Cymru**
Llywodraeth Cymru
5ed Llawr
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Anfonwyd drwy e-bost yn unig i **Gohebiaeth.Prif.Weinidog@llyw.cymru**

Annwyl Brif Weinidog,

Ysgrifennwn i'ch llongyfarch ar eich penodiad fel Prif Weinidog, ar adeg mor bwysig i Gymru.

Fel yr ydych eisoes wedi'i nodi, mae hwn yn gyfnod sy'n galw am ffocws newydd, egni ac ymrwymiad i gyflawni. Mae pobl ledled Cymru yn disgwyl gweld newid gwirioneddol yn y ffordd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio iddynt yn eu bywydau bob dydd, yn enwedig ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, lle mae'r pwysau mor amlwg a phrofiad pobl o wasanaethau mor bersonol.

Fel y corff statudol annibynnol sy'n cynrychioli llais dinasyddion ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, mae gan Llais rôl glir a nodedig o fewn y system. Rydym yn dod â phrofiadau pobl ynghyd ac yn darparu darlun annibynnol lleol, rhanbarthol a chenedlaethol o sut mae gwasanaethau'n gweithio yn ymarferol — a lle nad ydynt yn gweithio.

Mae hyn yn rhoi darlun amser real i ni o sut mae gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn ymddangos ac yn teimlo i bobl a chymunedau. Rydym yn

Cadeirydd / Chair: **Athro / Professor Medwin Hughes DL**
Prif Weithredwr / Chief Executive: **Alyson Thomas**
E-bost / E-mail: **enquiries@llaiscymru.org**
Ffôn / Tel: **02920 235558**

gwneud hyn er mwyn helpu i sicrhau bod yr hyn a fwriedir mewn polisi yn gweithio yn ymarferol, a bod realiti bywydau pobl yn parhau'n weladwy wrth wneud penderfyniadau.

Mae pobl yn glir ynghylch beth sy'n bwysig ar hyn o bryd: gwelliant clir a chynaliadwy yn y ffordd y mae gofal a chymorth yn cael eu darparu a'u profi o ddydd i ddydd.

Mae'r hyn a glywn gan bobl ledled Cymru yn hynod gyson.

Pan fydd gwasanaethau'n gweithio'n dda, mae pobl yn disgrifio'r gwahaniaeth cadarnhaol y mae hyn yn ei wneud i'w bywydau ac i fywydau eu hanwyliaid gyda gwir argyhoeddiad. Maent yn rhoi gwerth mawr ar waith caled, ymroddiad ac ymrwymiad staff iechyd a gofal cymdeithasol, sy'n mynd y tu hwnt i'r disgwyl bob dydd mewn cymunedau ledled Cymru.

Ond yn rhy aml, mae gwasanaethau'n dal i deimlo'n dameidiog o amgylch ffiniau sefydliadol yn hytrach na'u bod wedi'u trefnu o amgylch bywydau pobl. Gwelwn effaith hyn bob dydd.

Mae pobl yn disgrifio gorfod ailadrodd eu stori dro ar ôl tro, bod yn ansicr ynghylch at bwy i droi, a gorfod aros am gyfnodau hir heb unrhyw gyswllt wrth ddisgwyl am ofal a chymorth.

Pan na all cymorth yn y gymuned ddiwallu anghenion pobl, mae'n dod yn anos symud ymlaen o'r ysbyty yn ddiogel ac ar yr adeg briodol. Pan nad yw gofalwyr di-dâl yn cael yr help sydd ei angen arnynt, teimlir y pwysau nid yn unig gan unigolion a theuluoedd, ond ar draws y system ehangach. Pan fo cyfleoedd i atal salwch yn gyfyngedig, gall pobl fynd yn sâl yn gynt, gan wneud argyfyngau'n fwy tebygol.

Mae'r profiadau hyn yn tanlinellu mater sylfaenol. I'r cyhoedd, nid oes gwahaniaeth ystyrlon rhwng "iechyd" a "gofal cymdeithasol". Mae'r rhaniad hwnnw'n bodoli yn y ffordd y mae gwasanaethau wedi'u trefnu, nid yn y ffordd y mae pobl yn eu profi. Heb ofal cymdeithasol cryf a chynaliadwy, bydd y system ehangach yn parhau i wynebu anawsterau.

Gwyddom nad yw'r pwysau hyn yn un tymor byr. Mae yn adlewyrchu newid hirdymor a chynyddol mewn anghenion. Mae Cymru wedi nodi uchelgais glir ar gyfer atal, integreiddio a darparu gofal yn nes at adref. Y bwlch erbyn hyn yw'r gwahaniaeth rhwng yr uchelgais honno a'r hyn y mae pobl yn ei brofi'n gyson.

Cadeirydd / Chair: **Athro / Professor Medwin Hughes DL**
Prif Weithredwr / Chief Executive: **Alyson Thomas**
E-bost / E-mail: **enquiries@llaiscymru.org**
Ffôn / Tel: **02920 235558**

Y cwestiwn felly nid yw a oes gan Gymru'r gwerthoedd cywir. Mae'n amlwg bod ganddi. Y cwestiwn yw a ellir bellach drosi'r gwerthoedd hynny yn brofiad y gall pobl ei deimlo'n gyson ac ar raddfa eang.

Mae Egwyddorion y Bobl, sydd wedi'u llunio'n uniongyrchol o'r hyn y mae pobl ledled Cymru wedi dweud wrthym sydd bwysicaf iddynt, yn darparu prawf clir o a yw'r bwlch hwnnw'n cau. Maent yn disgrifio gwasanaethau sy'n gydgysylltiedig, yn hygyrch, yn canolbwyntio ar yr unigolyn, ac yn cael eu darparu gydag urddas, parch ac eglurder. Maent yn cynnig ffordd ymarferol o ddeall a yw newid yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl.

Wrth i'ch Llywodraeth ddechrau ar y gwaith o gyflawni ei blaenoriaethau — gan gynnwys mynd i'r afael ag amseroedd aros, cryfhau atal a gwella cydgysylltu ar draws gwasanaethau cyhoeddus — byddwn yn parhau i chwarae ein rhan i helpu i sicrhau bod y newidiadau hyn yn cael eu gweld nid yn unig mewn polisïau, cynlluniau a strwythurau, ond ym mywydau bob dydd pobl a chymunedau.

Nid yw pobl Cymru yn gofyn am berffeithrwydd. Yr hyn y maent ei eisiau yw rhywbeth llawer mwy dynol a chyraeddadwy: gofal a chymorth sydd wedi'u trefnu, eu cyfathrebu a'u darparu mewn ffordd sy'n adlewyrchu realiti eu bywydau.

Mae'n ymwneud â theimlo bod rhywun yn gwrando arnoch, nid eich bod yn cael eich anwybyddu. Mae'n ymwneud â gwybod beth sy'n digwydd heb orfod mynd ar drywydd diweddariadau. Ac mae'n ymwneud â gwasanaethau'n gweithio gyda'i gilydd o amgylch bywydau pobl, fel nad oes rhaid iddynt geisio gwneud synnwyr o'r system ar eu pennau eu hunain.

Gan ein bod yn gweithio ar draws iechyd a gofal cymdeithasol, rydym yn darparu darlun cynnar a pharhaus o ran newid ac a yw'n cael ei deimlo lle mae'n bwysicaf: ym mhrofiad pobl.

Yn yr ystyr hwnnw, rydym yn darparu dangosydd clir a pharhaus, ochr yn ochr â threfniadau perfformiad a sicrwydd ehangach, a yw newid yn cyrraedd pobl a lle mae rhwystrau'n parhau.

Gall hyn roi ddarparu darlun cyson ac annibynnol i'ch Llywodraeth ar a yw eich blaenoriaethau'n cael eu gwireddu yn ymarferol. Mae cyfle clir i sicrhau bod y wybodaeth hon yn cael ei defnyddio'n systematig, ochr yn ochr â'r trefniadau perfformiad a sicrwydd presennol, i gryfhau dealltwriaeth o gynnydd a chefnogi

Cadeirydd / Chair: **Athro / Professor Medwin Hughes DL**
Prif Weithredwr / Chief Executive: **Alyson Thomas**
E-bost / E-mail: **enquiries@llaiscymru.org**
Ffôn / Tel: **02920 235558**

atebolrwydd cliriach am brofiad pobl o iechyd a gofal cymdeithasol ledled Cymru.

Byddwn yn parhau i ddefnyddio Egwyddorion y Bobl fel fframwaith a rennir i ddeall cynnydd o safbwynt pobl, ac i dynnu sylw at leoedd lle mae'r bwlch rhwng bwriad a realiti yn parhau.

Yn y pen draw, bydd pobl yn barnu llwyddiant nid ar sail pa mor dda yw'r bwriad, ond ar sail a yw eu profiad o iechyd a gofal cymdeithasol yn darparu'r hyn sydd ei angen arnynt.

Rydym eisoes wedi dechrau trafodaethau gyda chydweithwyr ar draws y sector gofal cymdeithasol ynghylch sut fyddai orau i ni hyrwyddo llais defnyddwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol gyda'r Gweinidog Cabinet dros Iechyd a Gofal. Edrychwn ymlaen at weithio gyda chi a'ch cydweithwyr i sicrhau bod llais pobl Cymru yn helpu i lunio nid yn unig y weledigaeth ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, ond hefyd y realiti.

Mae ein hymrwymiad yn glir: adlewyrchu'n onest yr hyn y mae pobl yn ei brofi, herio'n adeiladol lle bo angen, a chwarae ein rhan lawn i helpu i sicrhau bod gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn gweithio i bawb, ble bynnag y maent yn byw yng Nghymru.

**Yn gywir,**

| | |
|---|---|
| **Athro Medwin Hughes DL** | **Alyson Thomas** |
| **Cadeirydd, Llais Cymru** | **Prif Weithredwr** |

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Os byddwch yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn yn ateb yn Gymraeg. Ni fydd hyn yn arwain at oedi wrth ymateb i'ch gohebiaeth.

We welcome correspondence in Welsh and English. If you write to us in Welsh, we will answer in Welsh. This will not lead to a delay in responding to your correspondence.

Cadeirydd / Chair: **Athro / Professor Medwin Hughes DL**
Prif Weithredwr / Chief Executive: **Alyson Thomas**
E-bost / E-mail: **enquiries@llaiscymru.org**
Ffôn / Tel: **02920 235558**